WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Cyhoeddwyd:** Tachwedd 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 563A2012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n berthnasol,
ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan: John Herniman, Anne Beegan, Alison Butler a Dave Thomas ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 8 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2011-12, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny a chyflwyno adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio | 8 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 13 |
| Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn llwyddo i fantoli'r gyllideb erbyn diwedd 2012-13 ac ni roddwyd cynlluniau sy'n ariannol gynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar waith eto | 14 |
| Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â rhai gwendidau yn ei drefniadau llywodraethu o hyd | 17 |
| Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol | 22 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 27 |
| Ffi archwilio | 29 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio rwyf wedi'i wneud ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2012.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio.
 Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn.
Trafodir yr adroddiadau hyn, cytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i is-bwyllgor perthnasol y Bwrdd
. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio cyfrifon

5. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2011-12, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny. Ymhlith y rhain mae gwella rheolaethau mewnol ac arferion cyfrifyddu ar gyfer stoc theatrau, sicrhau hynt hawliadau gofal iechyd parhaus er mwyn llywio'r ddarpariaeth gysylltiedig yn well a sicrhau bod gofynion taliadau'r sector cyhoeddus a datgelu cyflog canolrifol Hutton yn cael eu bodloni.
6. Yn ogystal, cyflwynais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn tynnu sylw at yr arian ychwanegol a gafodd y Bwrdd Iechyd, yn bennaf er mwyn ei alluogi i gyflawni ei dargedau ariannol.
7. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni balans ariannol ar ddiwedd 2011-12, o ganlyniad i £12 miliwn o gyllid anghylchol, ychwanegol a gafodd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2011, gyda £6 miliwn i'w ad-dalu yn 2012-13 a 2013-14.
8. Deuthum i'r casgliadau canlynol hefyd:
    - paratowyd datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
    - roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er bod rhai meysydd i'w gwella;
    - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad, er bod rhai gwendidau yn y systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**9.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig wedi ystyried cadernid trefniadau rheoli ariannol a threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Hefyd, cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad o feysydd darparu gwasanaethau penodol. Mae'r gwaith hwn wedi esgor ar y casgliadau canlynol.

### Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn llwyddo i fantoli'r gyllideb erbyn diwedd 2012-13 ac ni roddwyd cynlluniau sy'n ariannol gynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar waith eto

**10.** Mae'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'm hadolygiad o drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd fel a ganlyn:

- er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu cryn dipyn o bwysau ariannol, daeth y prosiect 'Turnaround to Transformation' i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2012, ac ni wireddwyd arbedion posibl o amrywiaeth o gyfleoedd a nodwyd ar draws y Bwrdd Iechyd yn llawn;
- amlygodd y broses o bennu cyllideb 2012-13 heriau ariannol sylweddol ond bu oedi o ran cwblhau'r broses, fe'i hestynnwyd a methwyd â nodi digon o leihad mewn costau i fantoli'r gyllideb;
- ni chyflawnir y lleihad angenrheidiol mewn costau ac mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £20 miliwn ar ddiwedd 2012-13, er bod elfen sylweddol o risg yn gysylltiedig â'r rhagamcan hwn;
- mae angen meithrin gwell cysylltiadau rhwng gwaith cynllunio ariannol, gweithlu, capasiti a gwasanaethau.

### Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â rhai gwendidau yn ei drefniadau llywodraethu o hyd

**11.** Nododd fy adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd y materion canlynol:

- mae angen gwneud mwy o waith er mwyn ymdrin â meysydd i'w datblygu a nodwyd mewn Asesiadau Strwythuredig blaenorol sy'n gysylltiedig â strwythur sefydliadol y Bwrdd Iechyd;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, er bod angen gwneud mwy yn arbennig er mwyn atgyfnerthu prosesau rheoli risg ac mae adolygiad sylfaenol o'i strwythur pwyllgor yn ofynnol ac ar waith;
- mae angen i wybodaeth reoli sy'n ategu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Bwrdd Iechyd gael ei datblygu ymhellach;
- er bod trefniadau ar waith i gefnogi ansawdd data, cydymffurfio â chyfrinachedd data a sicrhau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb, mae angen i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu trefniadau er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl effeithiol;

- mae gwaith paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi helpu i nodi dau achos o dwyll a gwallau.

### Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

**12.** Mae'r canfyddiadau allweddol o'm hadolygiad o ddefnydd y Bwrdd Iechyd o adnoddau fel a ganlyn:

- prin fu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd mewn meysydd i'w datblygu a nodwyd yn flaenorol mewn perthynas â rheoli ystadau a gwaith caffael;
- mae gan y Bwrdd Iechyd ddull cadarn o gynllunio'r gweithlu, er bod rhai bylchau allweddol ac mae angen gwneud mwy er mwyn cyflawni'r newidiadau sydd eu hangen i'r gweithlu;
- tynnodd fy ngwaith meincnodi ar staffio wardiau sylw at amrywiad o gymharu â wardiau ac arbenigeddau tebyg eraill yn ogystal â meysydd a nodwyd a oedd angen sylw pellach;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei drefniadau ymhellach o ran ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn effeithiol a fydd yn sail gadarn i gyflawni'r newidiadau sylfaenol sydd eu hangen i wasanaethau;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â mynd i'r afael ag argymhellion ein gwaith blaenorol ar wasanaethau mamolaeth, er bod angen gwneud rhagor o waith mewn nifer o feysydd ac mae angen cynnal momentwm.

## Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Tîm Gweithredol

**13.** Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 20 Tachwedd 2012. Yna, caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk)).

**14.** Bydd y Bwrdd Iechyd yn llunio ymateb ffurfiol i'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn. Bydd llawer o'r newidiadau i drefniadau llywodraethu ac arferion gweithredol y mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n eu hystyried yn helpu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gennyf. Byddaf yn parhau i fonitro cynnydd fel rhan o'm gwaith archwilio parhaus

**15.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**16.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Tachwedd 2011 a mis Hydref 2012.

**17.** Ymgymeraf â'm gwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu;
- **c)** bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**18.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a ystyriodd drefniadau rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a'r defnydd o adnoddau;
- hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**19.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**20.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon;
- trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**21.** Yn olaf, rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, a dengys bod y ffi honno yn unol â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**22.** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2011-12. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredol net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

## Fy nghyfrifoldebau

**23.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**24.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**25.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd;
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2011-12, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny

### Paratowyd datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**26.** Cyflwynwyd y datganiadau ariannol drafft cyn y terfyn amser, sef 4 Mai 2012. Paratowyd y datganiadau ariannol i safon dda ac fe'u hategwyd gan bapurau gwaith cynhwysfawr. Roedd tystiolaeth glir hefyd fod y datganiadau ariannol wedi bod yn

destun proses sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiad manwl gan Aelodau Annibynnol.

**27.** Mae fy nhîm wedi parhau i weithio'n agos gyda staff cyllid y Bwrdd Iechyd drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod problemau posibl yn cael eu nodi a'u datrys mewn ffordd amserol. Ar ôl cwblhau'r archwiliad, gwnaethom hefyd gynnal sesiwn dysgu ôl-brosiect ar y cyd. Bydd hyn yn helpu i lywio ein gwaith cynllunio ar y cyd ar gyfer 2012-13.

**28.** Mae'n ofynnol i mi, yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol 260, gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y datganiadau ariannol. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio a Bwrdd y Bwrdd Iechyd ar 6 Mehefin 2012.

**29.** Amlygodd fy adroddiad fod nifer o gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol drafft wedi cael eu cywiro gan reolwyr. Yn ystod y broses archwilio, codais bryderon fod gwariant yn ymwneud â stoc theatrau wedi'i danddatgan £0.577 miliwn. Roedd stoc cyflenwi wedi'i nodi fel gwariant adeg ei hadnewyddu yn hytrach nag adeg ei defnyddio (tanddatganiad o £0.493 miliwn) ac nid oedd gwerth llyfr rhai eitemau o stoc yn cyfateb i werthoedd cyfri'r stoc (tanddatganiad net o £0.064 miliwn). Cafodd y gwallau hyn eu cywiro yn y datganiadau ariannol ac fe'u gwrthbwyswyd gan ostyngiadau eraill mewn gwariant, oherwydd croniadau a gafodd eu gorddatgan mewn gofal sylfaenol a meysydd eraill, ac ad-daliadau TAW disgwyliedig. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi materion allweddol eraill a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Hawliadau Gofal Iechyd Parhaus y GIG | Ledled Cymru, prin fu'r cynnydd a wnaed o ran asesu hawliadau gofal iechyd parhaus y GIG sy'n weddill sy'n golygu bod y ddarpariaeth gysylltiedig yn faes amcangyfrif allweddol.<br>Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys darpariaeth o £4.938 miliwn a rhwymedigaeth wrth gefn o £8.165 miliwn ar gyfer hawliadau sy'n weddill. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar gymysgedd o asesiadau gwirioneddol a thybiaeth y bydd gan hawlwyr unigol sydd eisoes yn cael gofal nyrsio a ariennir gan y GIG hawl i gael gofal iechyd parhaus y GIG. Fodd bynnag, yn ystod 2011-12, aseswyd bod nifer fechan o hawliadau gofal nyrsio nad oeddent yn cael eu hariannu gan y GIG hefyd yn gymwys am ofal iechyd parhaus. Nid yw'r Bwrdd Iechyd o'r farn bod y wybodaeth hon am dueddiadau yn ddigonol i newid ei gyfeiriad cyffredinol. Fodd bynnag, dylai gwybodaeth bellach am dueddiadau a fydd ar gael yn 2012-13 gael ei defnyddio i fireinio'r fethodoleg; yn arbennig mewn perthynas â'r tybiaethau ynghylch hawliadau gofal nyrsio a ariennir gan y GIG. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus | Nodir bod 95.7 y cant (mewn nifer) o gredydwyr nad ydynt yn perthyn i'r GIG yn cael eu talu o fewn 30 diwrnod, ond mae'n debygol bod y perfformiad hwn wedi'i gamddatgan am na chydymffurfiwyd yn llawn â chanllawiau Llywodraeth Cymru:<br>• Cafodd system newydd o addasu ar gyfer anfonebau y bu dadlau yn eu cylch ei chyflwyno ym mis Ionawr 2012, ond ni chafodd unrhyw ddadlau yn ystod naw mis cyntaf y flwyddyn ei adlewyrchu yn y perfformiad a nodwyd;<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn 'dechrau'r cloc' mewn perthynas â pherfformiad talu anfonebau â llaw pan ddaw'r anfoneb i law'r Adran Gyllid yn hytrach na phan ddaw'r anfoneb i law'r Bwrdd Iechyd.<br>Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd weithio gyda Phartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru er mwyn sicrhau bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn cael eu dilyn yn llawn. |
| Datgeliadau 'Hutton' ar gyfer cyflogau canolrifol | Fel y nodwyd yn y datganiadau ariannol, nid yw datgeliad newydd 'Hutton' ar gyfer cyflogau canolrifol yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM na Llywodraeth Cymru. Nid yw'r adroddiadau safonol a gaiff eu creu gan y system gyflogres yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol. Mae a wnelo datgeliad y Bwrdd Iechyd â chyflog sylfaenol yn unig, ac nid yw'n cynnwys buddiannau mewn da, cyflog anghyfunol sy'n gysylltiedig â pherfformiad a thaliadau diswyddo. Mae hefyd yn hepgor staff asiantaeth a chyflogeion dros dro eraill sy'n cyflenwi swyddi gwag.<br>Mae angen gwneud rhagor o waith yn 2012-13 i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM a Llywodraeth Cymru. |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (sy'n disodli Datganiad am Reolaeth Fewnol 2011-12) ei baratoi'n amserol, gyda fersiwn drafft yn cael ei ystyried gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2012 fel rhan o ddatganiad etifeddiaeth y cyn-Gadeirydd a'r Prif Weithredwr. Er i'r fersiwn drafft gael ei ddiweddaru i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM a Llywodraeth Cymru, roedd y datganiad terfynol yn rhy hir ac nid oedd yn ddigon eglur. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r fformat ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan ganolbwyntio'n glir ar y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, gyda rhagor o wybodaeth yn cael ei rhoi am feysydd sy'n peri pryder, gan gynnwys unrhyw adroddiadau Archwilio Mewnol 'dim sicrwydd' a 'sicrwydd cyfyngedig'. |

**30.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod y wybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth

2012 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi i safon dda, yn unol â'r terfynau amser gofynnol ac yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol llawn yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar y cyfan. Fodd bynnag, er i'r Adroddiad Blynyddol drafft ddod i law yn amserol, a chynnwys y datganiadau ariannol cryno cytûn, roedd y 'fersiwn cyhoeddedig' a gafwyd ychydig cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cynnwys nifer o wallau yn y datganiadau ariannol cryno. Ar gyfer y flwyddyn nesaf, mae angen i'r broses o baratoi a gwirio'r 'fersiwn cyhoeddedig' gael ei hadolygu a'i gwella.

**31.** Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol Elusen Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro bellach wedi'i gwblhau. Hysbysais yr Ymddiriedolwyr o nifer o faterion ac fe'u hystyriwyd yn eu cyfarfod ar 6 Tachwedd 2012. Rhoddais farn ddiamod ar 12 Tachwedd 2012.

## Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er bod rhai meysydd i'w gwella

**32.** Mae fy ngwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar gywirdeb y datganiadau ariannol, gan adolygu'r amgylchedd rheolaeth fewnol i asesu a yw'n rhoi sicrwydd nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau perthnasol. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn eich amgylchedd rheolaeth fewnol.

**33.** Nododd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol y gallai'r Bwrdd Iechyd fod yn weddol sicr bod y trefniadau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli risg, rheolaeth a llywodraethu o fewn y meysydd hynny a adolygir, a'r gydymffurfiaeth weithredol a nodwyd, wedi cael eu cynllunio'n addas a'u gweithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, mae'r rheolwyr yn mynd i'r afael â'r amlygiad i risg sylweddol mewn sawl maes. Er i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gyflwyno nifer o adroddiadau 'sicrwydd cyfyngedig' a 'dim sicrwydd', nodwyd ganddo fod ei adolygiad o systemau ariannol allweddol yn cadarnhau bod system rheolaeth ariannol fewnol gadarn ar waith.

**34.** Mae rhai meysydd i'w gwella, fel a ganlyn:

- Cadarnhaodd fy adolygiad o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei fod wedi cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y GIG yng Nghymru ond ag un eithriad, sef na chaiff adolygiadau ansawdd allanol eu cynnal. Bydd angen i Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru ymdrin â hyn.
- Er nad wyf wedi nodi unrhyw faterion o ran seilwaith TG sy'n debygol o arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol, tynnais sylw'r Pwyllgor Archwilio at y pryderon canlynol ym mis Hydref 2012:
  – Mae gan y Bwrdd Iechyd dros 200 o weinyddion, y mae rhai ohonynt yn ymwneud â systemau annibynnol. Mae'r gwaith o gynnal cynifer o weinyddion a systemau yn gostus, yn enwedig gan fod rhai ohonynt yn hen. Dylai'r Bwrdd Iechyd bennu strategaeth ar gyfer lleihau nifer y gweinyddion a systemau.

– Lleolir dwy brif ganolfan ddata'r Bwrdd Iechyd ar yr un safle yn Ysbyty Athrofaol Cymru a dim ond 300 llath sydd rhyngddynt. Mae risg y gallai digwyddiad mawr sy'n effeithio ar y ddwy ganolfan ddata olygu nad oes gan y Bwrdd system wrth gefn. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal asesiad risg mewn perthynas â hyn ac mae'n cael ei ystyried ar lefel genedlaethol.
– Ni chaiff profion adfer ar ôl trychineb eu cynnal yn rheolaidd, felly nid yw'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'i allu i ymateb yn ddigonol i ddigwyddiad mawr.

### Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad, er bod rhai gwendidau yn y systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt

**35.** Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd a fyddai'n effeithio ar fy marn. Roedd nifer o faterion manwl yn codi o'm gwaith archwilio ariannol a chyflwynwyd adroddiad arnynt i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2012. Mae'r materion mwy sylweddol fel a ganlyn:

- Yn ystod y flwyddyn, ni ddilynwyd Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog na rheoliadau caffael yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar sawl achlysur, fel y nodwyd yn sesiynau preifat y Bwrdd neu'r Pwyllgor Archwilio. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn glynu wrth Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a deddfwriaeth gaffael yr UE ar bob adeg.
- Nid aethpwyd i'r afael â phryderon a godwyd gennyf y llynedd ynghylch system stoc theatrau. Yn arbennig, nid oes unrhyw nodiadau ar gyfer gweithdrefnau, mae'r rheolaethau o ran nodi a chofnodi hen stoc yn wael ac nid oes unrhyw reolaethau ar waith i gofnodi materion sy'n codi o ran stoc. Eleni, rwyf hefyd wedi codi pryderon ynghylch y ffordd y rhoddir cyfrif am stoc gyflenwi. Mae angen ymdrin â materion sy'n ymwneud â rheoli, defnyddio a phrisio holl stoc theatrau yn 2012-13.
- Yn sgil fy mhrofion ar dalu anfonebau â llaw, nodais ar sawl achlysur fod yr archeb neu'r anfoneb wedi cael ei chymeradwyo ar lefel amhriodol neu gan swyddog nad oedd ar y rhestr lofnodi ddynodedig. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru'r system awdurdodi er mwyn sicrhau bod y rheolaeth fewnol hon ar waith a'i bod yn gweithio'n effeithiol.

**36.** Yn ogystal, nododd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol nifer o wendidau mewn systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt o hyd. Datblygwyd cynlluniau gweithredu er mwyn gwella'r gwendidau ym maes rheolaeth a nodwyd yn yr adroddiadau hyn ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y cynnydd a wneir.

### Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol ar ddiwedd 2011-12, ond dim ond o ganlyniad i gyllid anghylchol gan Lywodraeth Cymru; o ganlyniad i hyn cyhoeddais adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm hadroddiad archwilio

**37.** Cafodd cyllidebau sylfaenol eu hymestyn i 2011-12 a phennwyd targedau lleihau costau cyffredinol er mwyn mynd i'r afael â £56.3 miliwn o'r bwlch ariannol amcangyfrifedig o £87.8 miliwn. Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2011, yn ei ffurflenni monitro i Lywodraeth Cymru, nododd y Bwrdd Iechyd ddiffyg rhagamcanol o £31.5 miliwn. Ym mis Tachwedd 2011, rhoddodd Llywodraeth Cymru £17 miliwn o arian cylchol i'r Bwrdd Iechyd ynghyd â broceriaeth o £12 miliwn. Yn sgil hyn, a lleihau costau ymhellach, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i drawsnewid y sefyllfa a nodwyd a mantoli'r gyllideb.

**38.** Ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12, aeth y Bwrdd Iechyd i wariant net o £759.084 miliwn yn erbyn ei derfyn adnoddau. Ei derfyn adnoddau terfynol oedd £759.135 miliwn, a oedd yn cynnwys £12 miliwn o froceriaeth ad-daladwy ychwanegol yr hysbyswyd y Bwrdd Iechyd ohoni'n ffurfiol ar 7 Tachwedd 2011. Roedd hyn yn golygu y byddai'r Bwrdd Iechyd wedi mynd uwchlaw ei derfyn adnoddau os na fyddai wedi cael y swm ychwanegol o £12 miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn atal hyn rhag digwydd.

**39.** Rwyf wedi cyhoeddi adroddiad naratif ochr yn ochr â'm hadroddiad archwilio er mwyn tynnu sylw at y mater hwn a rhoi rhagor o fanylion am sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**40.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau lleihau costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig gyda phwyslais penodol ar gadernid fframwaith sicrwydd cyffredinol y Bwrdd a'r amgylchedd rheolaeth fewnol;
- gwaith defnydd penodol o adnoddau mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu, staffio wardiau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- asesu'r cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud wrth ymdrin â'r materion a nodwyd gan waith archwilio blaenorol ar wasanaethau mamolaeth.

**41.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn llwyddo i fantoli'r gyllideb erbyn diwedd 2012-13 ac ni roddwyd cynlluniau sy'n ariannol gynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar waith eto

### Er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu cryn dipyn o bwysau ariannol, daeth y prosiect 'Turnaround to Transformation' i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2012, ac ni wireddwyd arbedion posibl o amrywiaeth o gyfleoedd a nodwyd ar draws y Bwrdd Iechyd yn llawn

**42.** Fel un o amodau'r arian ychwanegol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2011, sefydlodd y Bwrdd Iechyd dîm prosiect ymroddedig ar gyfer 'Turnaround to Transformation' (T2T). Canolbwyntiodd y tîm amlddisgyblaethol hwn ar amseroedd gweithredu er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn mantoli'r gyllideb yn 2011-12. Cyflwynodd y tîm ffordd wahanol o baratoi adroddiadau ariannol, gan ganolbwyntio ar gyfraddau rhedeg incwm a gwariant. Gwelwyd cyflymdra a ffocws yn deillio o waith tîm mor ymroddedig, lle bu modd torri ar draws rhywfaint o'r gwaith seilo o fewn y Bwrdd Iechyd.

**43.** Daeth y prosiect i ben ym mis Mawrth 2012. O ganlyniad, ni lwyddodd y prosiect i helpu i nodi a chyflwyno'r trawsnewid angenrheidiol er mwyn cyflawni cynllun ariannol gynaliadwy tymor canolig.

**44.** Argymhellodd tîm prosiect T2T y dylai'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar y pedwar cyfle sefydliadol a nodwyd (y gweithlu meddygol, gweinyddiaeth glinigol, rheoli meddyginiaethau a chaffael a stoc). Er i Arweinwyr Gweithredol gael eu penodi ar gyfer pob un o'r cyfleoedd hyn, gan gynnwys thema newydd ar gostau gofal iechyd parhaus, nid oedd y trefniadau rheoli ar gyfer monitro, nodi a chyflawni'r cyfleoedd hyn yn eglur. Gwnaed cynnydd mewn rhai meysydd, ond ni chyflawnwyd yr arbedion posibl a nodwyd fel rhan o brosiect T2T ac y cyfeiriwyd atynt yng nghynlluniau ariannol y Bwrdd Iechyd yn llawn.

**45.** Mae'n amlwg bod cael adnodd penodol a oedd yn canolbwyntio ar gyflawni, o dan T2T, wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i fodloni'r gofyniad o ran lleihau costau yn 2011-12, ond prin y datblygodd gyfleoedd ar draws y Bwrdd Iechyd i drawsnewid y ffordd o ddarparu gwasanaethau. Er gwaethaf yr oedi, mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi sefydlu Swyddfa Rheoli Rhaglenni ddynodedig ac un o'i thasgau cyntaf fydd cael datganiad sefyllfa ar holl gyfleoedd y Bwrdd Iechyd. Gall rhai o'r cyfleoedd sydd ar gael i'r Bwrdd Iechyd cyfan helpu i wella ei sefyllfa ariannol yn 2012-13, ond bydd eraill yn cymryd amser i'w gweithredu. Nid yw'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa i laesu dwylo beth bynnag a bydd angen iddo sicrhau bod yr holl arbedion posibl a nodwyd yn cael eu datblygu a'u gwireddu mewn modd amserol.

### Amlygodd y broses o bennu cyllideb 2012-13 heriau ariannol sylweddol ond bu oedi o ran cwblhau'r broses, fe'i hestynnwyd a methwyd â nodi digon o leihad mewn costau i fantoli'r gyllideb

**46.** Amlygodd cynllun ariannol drafft 2012-13, a baratowyd i'w ystyried gan y Bwrdd ym mis Mai 2012, fod angen gweithredu ar fyrder er mwyn cyflawni cynllun ariannol

cytbwys ar gyfer y flwyddyn. Nodwyd bwlch ariannol cychwynnol o £66.7 miliwn ac er i 'fframwaith' gael ei nodi ar gyfer rheoli hyn, ar y pryd, nid oedd yn cynnwys cynlluniau clir i ddangos sut y câi'r diffyg ei unioni.

**47.** Bwriad gwreiddiol y Bwrdd Iechyd oedd seilio cyllidebau is-adrannol 2012-13 ar dargedau arbed gwahaniaethol, yn seiliedig ar gostau ac effeithlonrwydd cymharol. Roedd hefyd yn bwriadu ailddyrannu adnoddau er mwyn cefnogi newidiadau strategol i wasanaethau. Fodd bynnag, yn sgil gwaith tîm prosiect T2T, cafodd cyllidebau eu seilio i ddechrau ar gyfraddau rhedeg incwm a gwariant ar gyfer 2011-12. Bu hyn o gymorth wrth ailseilio elfennau o'r gyllideb a gwnaeth ddileu, er enghraifft, swyddi gwag o fewn y sefydliad nad oedd eu hangen mwyach. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni balans o ran y gyllideb, pennwyd targed lleihau costau cyffredinol o 4.5 y cant ar gyfer is-adrannau, gyda'r targed hwnnw yn cael ei ostwng i 3.5 y cant ar gyfer yr is-adrannau hynny a oedd wedi cyflawni balans yn 2011-12.

**48.** Hyd yn hyn, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i nodi digon o leihad mewn costau i gyflawni balans o ran y gyllideb ar gyfer 2012-13. O ganlyniad, ni wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r cynllun ariannol terfynol tan fis Medi 2012, bron hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

**49.** Mae'r cynllun ariannol terfynol y cytunwyd arno ym mis Medi 2012 yn cyfeirio at fwlch ariannol cynyddol o £72 miliwn, heb unrhyw gynlluniau adfer ar waith ar gyfer £37.5 miliwn.

**50.** Yn fy adroddiad cenedlaethol ar Gyllid Iechyd, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012, nodais mai un o'r heriau mawr sy'n wynebu gwasanaeth a arweinir gan alw yw sefydlu diwylliant lle cedwir costau dan reolaeth. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arian ychwanegol i helpu i wella gwasanaethau a chwmpasu diffygion Byrddau Iechyd Lleol. Fodd bynnag, nid yw gweld y Bwrdd Iechyd yn pennu cyllideb anghytbwys yn cyfleu systemau rheoli ariannol da.

## Ni chyflawnir y lleihad angenrheidiol mewn costau ac mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £20 miliwn ar ddiwedd 2012-13, er bod elfen sylweddol o risg yn gysylltiedig â'r rhagamcan hwn

**51.** Cadarnhaodd y ffurflenni monitro a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mai a mis Mehefin 2012 y byddai'r Bwrdd Iechyd yn mantoli'r gyllideb ac yn aros o fewn ei derfyn adnoddau, er i'r ffurflenni hyn nodi nad oedd y gwaith o gyflawni'r cynllun ariannol heb risg sylweddol. O fis Gorffennaf 2012 ymlaen, mae'r ffurflenni monitro yn cadarnhau diffyg o £20 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

**52.** Ar ddiwedd mis Medi 2012, dim ond £12.7 miliwn o leihad mewn costau (neu arbedion) a gyflawnwyd yn erbyn y gyllideb blwyddyn hyd yma wreiddiol o £28.9 miliwn. O'r diffyg o £16.2 miliwn, mae £0.9 miliwn yn ymwneud â thangyflawni arbedion arfaethedig, gyda £15.3 miliwn yn ymwneud â'r gyfran o arbedion nas nodwyd a gynhwyswyd yn y sefyllfa ariannol. Mae hyn, ynghyd ag amrywiad gweithredol andwyol o £1.5 miliwn, yn golygu bod y Bwrdd Iechyd wedi nodi diffyg o £17.7 miliwn ar ddiwedd mis Medi 2012.

**53.** Er mwyn cyflawni'r diffyg rhagamcanol o £20 miliwn, rhaid i'r Bwrdd Iechyd gyflawni £34.2 miliwn o leihad mewn costau rhwng mis Hydref 2012 a mis Mawrth 2013, er, ar ddiwedd mis Medi 2012, roedd yn dal angen i £13.7 miliwn o'r cynlluniau hyn gael eu pennu (£7 miliwn fel yr hysbyswyd y Bwrdd ohono ym mis Tachwedd). Bydd hefyd angen iddo reoli pwysau gweithredol, gan gynnwys pwysau Haen 1 o £5.2 miliwn, gan na chaiff ei adlewyrchu yn y rhagolygon lleihau costau. O ystyried hyn, mae cryn dipyn o risg ynghlwm wrth y diffyg rhagamcanol o £20 miliwn.

**54.** Gwneir cryn ymdrech i gynnal cofnodion manwl ym maes lleihau costau, ond heb fod unrhyw gynlluniau cadarn ar waith i gyflawni cyfran sylweddol o'r lleihad gofynnol mewn costau, nid yw'r diffyg presennol a nodwyd yn annisgwyl. Nid yw cyllidebau cychwynnol wedi cael eu hasesu na'u blaenoriaethu'n llawn, yn ôl y bwriad gwreiddiol. Fel y nodwyd y llynedd, mae hyn yn golygu bod rhywfaint o'r lleihad gofynnol mewn costau yn afrealistig, yn ddyheadol ac nad yw wedi'i gysylltu'n glir â chynlluniau darparu gwasanaethau na chynlluniau gweithlu a chapasiti.

**55.** Wrth i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ei gynlluniau ar gyfer 2013-14, rhaid iddo sicrhau y bydd y cynllun yn cyflawni balans ariannol a bod cynlluniau arbed yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Yn arbennig, bydd angen i'r Bwrdd lywio blaenoriaethau gwasanaethau yn glir, gan gydnabod y bydd angen dadfuddsoddi mewn rhai meysydd a sicrhau gwell effeithlonrwydd mewn rhai eraill. Drwy ailseilio'r gyllideb yn y fath fodd, rhoddir cyfeiriad clir i is-adrannau, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar gyflawni targedau lleihau costau mwy realistig.

### Mae angen meithrin gwell cysylltiadau rhwng gwaith cynllunio ariannol, gweithlu, capasiti a gwasanaethau

**56.** Fel y nodwyd y llynedd, mae angen gwneud mwy o waith i integreiddio cynlluniau gwasanaeth, cynlluniau'r gweithlu a chynlluniau ariannol yn llawn a'u rhoi ar waith. Er bod y Cynllun Gweithredol yn cyfeirio at ddull gweithredu integredig, ni chaiff cynlluniau unigol eu hintegreiddio'n llawn ac nid ydynt yn fforddiadwy. At hynny, mae angen ystyried goblygiadau ariannol newidiadau i wasanaethau a blaenoriaethau a'u cynnwys yn y cynllun ariannol ar gam cynnar, gydag asesiad clir bod y cynlluniau arfaethedig yn fforddiadwy. Gwelwyd ambell enghraifft eleni sy'n dangos yn glir nad yw cynlluniau yn cael eu hintegreiddio'n llawn, gydag arian cylchol ychwanegol ar gyfer 'Ymgyrch Wyn' a'r Cynllun Capasiti yn cael eu hystyried ar ôl i'r Cynllun Gweithredol drafft gael ei baratoi.

**57.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod yr angen i newid a chynigir proses pennu cyllideb newydd ar gyfer 2013-14. Mae'r amserlen ar gyfer cyflawni cyllideb 2013-14 yn uchelgeisiol, o ystyried y pwysau ariannol sy'n wynebu'r is-adrannau ar hyn o bryd, ond ni all y Bwrdd Iechyd fforddio gadael i'r amserlen hon lithro. Fel yr hysbyswyd yr Is-bwyllgor Cyllid ym mis Medi 2012, mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu her ariannol sylweddol yn 2012-13 ynghyd â rhagolwg ariannol ar gyfer 2013-14 a fydd yn gofyn am gryn newid ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn cyflawni balans o ran y gyllideb yn y dyfodol. Mae'r fframwaith cynllunio ariannol yn sbardun allweddol o ran cyflawni'r amcan hwn. Os yw'r Bwrdd Iechyd am lwyddo, ac osgoi'r pwysau ariannol sylweddol hwnnw a wynebwyd yn 2011-12 a 2012-13, bydd angen iddo baratoi a chymeradwyo

cynllun ariannol cynaliadwy cyn i flwyddyn ariannol 2013-14 ddechrau. Bydd hefyd angen i'r cynllun hwn ddangos yn glir sut y caiff pwysau ariannol eu rheoli a sut yr ymdrinnir â hwy.

## Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â rhai gwendidau yn ei drefniadau llywodraethu o hyd

### Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn ymdrin â meysydd i'w datblygu a nodwyd mewn Asesiadau Strwythuredig blaenorol sy'n gysylltiedig â strwythur sefydliadol y Bwrdd Iechyd

**58.** Y llynedd, nodais feysydd i'w datblygu mewn perthynas â strwythur sefydliadol y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar effeithiolrwydd grwpiau cynghori'r Bwrdd a'r angen i sicrhau bod rôl swyddogaethau corfforaethol y Bwrdd Iechyd wedi'u deall yn glir a bod adnoddau wedi'u cysoni'n briodol. Yn 2012, mae fy ngwaith wedi nodi'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd yn dal i wynebu anawsterau yn y meysydd hyn. Nid yw effeithiolrwydd grwpiau cynghori'r Bwrdd yn unigryw i'r Bwrdd Iechyd, gyda llawer o fyrddau iechyd eraill ledled Cymru mewn sefyllfa debyg. Mae'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliad wedi datblygu yn sgil penodi Cadeirydd newydd, a bu'r ymgysylltu â'r gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithredol ar gyfer 2012-13 yn llawer gwell, ond, ceir diffyg eglurder o hyd o fewn y Bwrdd Iechyd ynghylch diben y grŵp o'i ystyried ochr yn ochr â'i ffyrdd eraill o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gwelir problem debyg gyda Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol y Bwrdd Iechyd.

**59.** Erys rôl Arloesi a Gwella yn aneglur ymhlith rhai o is-adrannau'r Bwrdd Iechyd, er gwaethaf y ffaith ei fod ynghlwm wrth y fframwaith perfformiad ac atebolrwydd. Dywedodd rhai is-adrannau fod diffyg dealltwriaeth o sut i fanteisio ar adnoddau Arloesi a Gwella ac na chânt weld y cynllun gwaith ar gyfer yr adran. Deallaf y caiff y cynllun gwaith ei gyflwyno i Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn y dyfodol. O ran swyddogaethau corfforaethol eraill, rwy'n dal i bryderu ynghylch capasiti'r swyddogaeth gynllunio i gefnogi a galluogi'r is-adrannau gyda gwaith cynllunio tymor canolig i dymor hwy, yn enwedig yn sgil cynllun De Cymru ac effeithiau posibl y cynllun ar wasanaethau lleol. Mae hefyd angen i'r Bwrdd Iechyd gael sicrwydd y gall Ysgrifennydd y Bwrdd ddatblygu a chefnogi'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, er bod angen gwneud mwy yn arbennig er mwyn atgyfnerthu prosesau rheoli risg ac mae adolygiad sylfaenol o'i strwythur pwyllgor yn ofynnol ac ar waith

**60.** Mae gan y Bwrdd Iechyd systemau ar waith i nodi'r prif risgiau a rhwystrau i gyflawni ei amcanion strategol allweddol, yn enwedig o ran diogelwch, ansawdd a chyllid, drwy Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Cefnogir hyn gan gofrestr risg gorfforaethol y Bwrdd Iechyd, a gyhoeddwyd ar wefan y Bwrdd Iechyd yn ddiweddar; fodd bynnag, nid yw fframwaith rheoli risg y Bwrdd Iechyd i ategu ei drefniadau llywodraethu wedi cael ei ymgorffori'n briodol. Mewn adolygiad Archwilio Mewnol diweddar, dim ond sicrwydd cyfyngedig a roddwyd mewn perthynas â threfniadau asesu a rheoli risg y Bwrdd

Iechyd, a nododd nad oedd llawer o gofrestrau risg yn cael eu cefnogi gan unrhyw asesiadau risg a bod diffyg tystiolaeth i gadarnhau bod y risgiau a nodwyd wedi cael eu sgorio'n briodol neu'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff risgiau o'r is-adrannau a'r cyfarwyddiaethau eu bwydo i mewn i'r gofrestr risg gorfforaethol, er, o ystyried lefel y sicrwydd sy'n gysylltiedig â threfniadau gweithredol; nid yw'n glir pa mor gadarn yw'r gofrestr risg gorfforaethol.

**61.** Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i chwarae rôl allweddol o ran rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch ei drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, ac ynghylch y datganiadau datgelu sy'n deillio o'r prosesau hyn, yn cynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol ac, o 2012-13, y datganiad ansawdd blynyddol. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch hefyd yn chwarae rôl allweddol o ran rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd ynghylch ansawdd a diogelwch. Fodd bynnag, yn sgil arsylwi'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau, gwelais achosion o ddyblygu rhwng pwyllgorau a'r potensial i'r Bwrdd ailadrodd rhywfaint o waith a her ei is-bwyllgorau. Caiff materion eu trosglwyddo rhwng is-bwyllgorau yn aml hefyd a gall gymryd cryn dipyn o amser i'w datrys. Mae llawer gormod o is-bwyllgorau a grwpiau ar waith erbyn hyn, gyda bron 40 o is-bwyllgorau a grwpiau yn bwydo i mewn i'r Bwrdd. Bydd aelodau, yn rhai annibynnol a swyddogion, yn aml yn bresennol mewn sawl cyfarfod a all roi baich sylweddol arnynt, gydag aelodau annibynnol yn gweithio mwy o oriau na'u horiau contract fel mater o drefn.

**62.** Er bod y Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cymryd ystod eang o sicrwydd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei chael hi'n anodd datblygu proses glir ar gyfer pennu a yw'n cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol a rheoliadol, gan wneud penderfyniad ffurfiol i ganolbwyntio'n bennaf ar drwyddedu a deddfwriaeth risg uchel, er enghraifft iechyd a diogelwch, iechyd meddwl a chydraddoldeb. Mae'r rhaglen archwilio glinigol, er iddi gael ei gwella ers 2011, yn parhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol neu ddiddordeb lleol penodol, a phrin yw'r capasiti sydd ganddi i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Gall cofnodion cyfarfodydd is-grwpiau roi lefel o sicrwydd i bwyllgorau a'r Bwrdd, ond yn aml ychydig iawn o amser a neilltuir gan bwyllgorau i ystyried y rhain ac mae'n bosibl y gallai pryderon gael eu methu.

**63.** Yn 2011, gwnaethom argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd baratoi crynodeb cynhwysfawr o'r ffynonellau allweddol o sicrwydd a'r pwyllgorau sy'n gyfrifol am fonitro pob un o'r ffynonellau hyn, gan gynnwys rôl y Grŵp Cynghori Cadeiryddion. Ni wnaed hyn eto. Yna, gall y Pwyllgor Archwilio sicrhau bod ganddo drefniadau ar waith i fonitro'r trefniadau hyn a chraffu arnynt yn effeithiol drwy gydol y flwyddyn. Bydd y camau strwythuredig hyn yn galluogi'r Pwyllgor Archwilio i roi'r sicrwydd gofynnol i'r Bwrdd a bydd yn helpu i lywio'r gwaith o baratoi'r datganiad llywodraethu blynyddol. Byddant hefyd yn helpu i egluro rôl yr is-bwyllgorau a'r is-grwpiau ac yn atal y dyblygu a welir ar hyn o bryd.

**64.** Cafodd Llawlyfr Pwyllgor Archwilio newydd ei gyhoeddi ym mis Mai 2012 a disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio ystyried papur ar y goblygiadau i'r Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd 2012. Mae'r papur hwn yn tynnu sylw at amrywiaeth o faterion er bod y rhan fwyaf yn ymwneud â rôl y Pwyllgor Archwilio wrth adolygu'r amryw ffynonellau o sicrwydd, fel y

cyfeiriwyd atynt uchod. Dylai'r Pwyllgor Archwilio hefyd adolygu ei Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd, er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi barn ar gyflawnrwydd, dibynadwyedd a chywirdeb y fath sicrwydd.

### Mae angen i wybodaeth reoli sy'n ategu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Bwrdd Iechyd gael ei datblygu ymhellach

**65.** Eleni, mae fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig wedi canolbwyntio ar p'un a all y Bwrdd a'i is-bwyllgorau gael gafael ar y wybodaeth reoli berthnasol i gynllunio, gwneud penderfyniadau ac ategu trefniadau craffu a sicrwydd effeithiol i'r bwrdd. Nodais y canlynol:

- mae'r wybodaeth a roddir i'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cefnogi prosesau sicrwydd a gwneud penderfyniadau yn fras, ond mae anghydbwysedd tuag at faterion gweithredol ac mae angen i'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau ganolbwyntio'n fwy ar bennu cyfeiriad y sefydliad a chynllunio'n strategol.
- mae'r wybodaeth sydd ar gael yn parhau i ymwneud â gofal eilaidd i raddau helaeth, er bod y Bwrdd a'i aelodau yn cydnabod bod angen rhoi mwy o sylw i iechyd y boblogaeth a gofal sylfaenol a gofal cymunedol.
- ni chaiff y wybodaeth a roddir ei gorgrynhoi, sy'n cefnogi gwaith craffu a herio, er, ar adegau, caiff y Bwrdd ormod o fanylion, yn enwedig mewn perthynas â'r adroddiad integredig ar berfformiad.
- mae ymrwymiad clir i ddeall ansawdd a diogelwch cyffredinol gwasanaethau, er mai anaml y'i nodir mewn un man. Cyflwynir adroddiadau ar wahân ar brofiad cleifion, perfformiad a chyllid, sy'n golygu bod aelodau yn gofyn cwestiynau ychwanegol. Mae lle hefyd i gyflwyno agweddau eraill megis goblygiadau o ran y gweithlu, TG ac ystadau, sy'n destun adroddiadau ar wahân ar hyn o bryd.
- ni chaiff cymariaethau o berfformiad (dros amser neu â sefydliadau eraill) eu cyflwyno bob amser, sy'n ei gwneud hi'n anodd i'r Bwrdd ac is-bwyllgorau ddeall cyfeiriad teithio neu berfformiad y Bwrdd Iechyd o'i gymharu ag eraill.
- ni nododd aelodau fawr ddim pryderon o ran ansawdd y wybodaeth a roddir i'r Bwrdd ac is-bwyllgorau, ac eithrio cryn oedi mewn perthynas â gwaith codio clinigol sy'n effeithio ar gywirdeb gwybodaeth am berfformiad.
- er i waith diweddar gael ei wneud i ailstrwythuro papurau a gyflwynir i'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod cydnabyddiaeth glir o'r cysylltiadau ag amcanion corfforaethol a'r effeithiau cysylltiedig ar agweddau fel cyllid, mae rhai papurau yn dal i ofyn am gryn fewnbwn gan Ysgrifennydd y Bwrdd er mwyn gwneud hyn yn gliriach.

**66.** Yn ogystal ag adolygu gwybodaeth reoli, mae fy ngwaith hefyd wedi canolbwyntio ar b'un a yw'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth a gyflwynir. Yn sgil arsylwi Bwrdd y Bwrdd Iechyd ac is-bwyllgorau allweddol, nodais fod tystiolaeth gymharol dda o graffu a herio gan aelodau, er y gellid mynd i'r afael â pheth ffocws ynghylch ceisiadau am wybodaeth ychwanegol ac eglurhad drwy gynnwys mwy o wybodaeth yn y papurau a gyflwynir. Mae tystiolaeth glir o wybodaeth am berfformiad yn cael ei thriongli â ffynonellau eraill o sicrwydd megis sesiynau crwydro diogelwch

cleifion; eto i gyd, gall trafodaethau fynd yn rhy weithredol a chanolbwyntio ar y manylion.

**67.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal cyfres o sesiynau datblygu'r bwrdd er mwyn helpu i lywio gofynion gwybodaeth reoli'r Bwrdd ac is-bwyllgorau, ochr yn ochr â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a strwythurau Pwyllgorau. Mae cymorth ar gael i aelodau ddefnyddio'r wybodaeth reoli a dylai pob Aelod Annibynnol fod yn gallu cael gafael ar wybodaeth electronig os oes angen iddynt ddadansoddi'r wybodaeth a roddir iddynt ymhellach. Fodd bynnag, ni nododd unrhyw un o'r Aelodau Annibynnol fod cyfrifiaduron y GIG ar gael iddynt eu defnyddio, er iddynt nodi y gallant gael gafael ar unrhyw wybodaeth angenrheidiol drwy swyddogion y Bwrdd Iechyd.

**68.** Daw cryn dipyn o'r wybodaeth a roddir i'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau o ffynonellau electronig; fodd bynnag, mae rhai meysydd gwasanaeth yn dal i ddibynnu ar systemau llaw neu systemau electronig sy'n cynnig cymorth dadansoddol cyfyngedig, os o gwbl. Y meysydd hyn yn aml yw'r meysydd na chânt fawr ddim sylw ar agendâu is-bwyllgorau neu'r Bwrdd megis gwasanaethau cymunedol.

### Er bod trefniadau ar waith i gefnogi ansawdd data, cydymffurfio â chyfrinachedd data a sicrhau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb, mae angen i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu trefniadau er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl effeithiol

**69.** Rwyf wedi cynnal archwiliad lefel uchel o drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod y data a gynhyrchir ganddo yn ddibynadwy ac yn gywir. Er nad yw'r gwaith hwn wedi ceisio dilysu ansawdd setiau data neu ddangosyddion perfformiad penodol y GIG, mae wedi adolygu data demograffig cleifion sylfaenol er mwyn pennu faint o wybodaeth ddyblyg sydd ar y systemau Gweinyddu Cleifion a Radioleg a faint o wybodaeth sydd ar goll.

**70.** Nododd fy ngwaith fod ymrwymiad corfforaethol i ansawdd data ond bod angen gwneud rhagor o waith er mwyn atgyfnerthu polisïau ac effeithiolrwydd prosesau, fel bod ffocws cryf ar ansawdd data ar draws y Bwrdd Iechyd. Yn fwy penodol, nodais y canlynol:

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod pwysigrwydd ansawdd data ac wedi pennu prif gyfrifoldebau ond nid yw wedi llwyddo i gymryd camau sy'n sicrhau bod y Bwrdd Iechyd cyfan yn canolbwyntio ar ansawdd data fel sydd ei angen;
- mae angen atgyfnerthu trefniadau i sicrhau bod data o ansawdd cadarn drwy ddatblygu polisi ansawdd data;
- er gwaethaf rhywfaint o berfformiad cadarnhaol yn erbyn targedau dilysrwydd data cenedlaethol, mae canlyniadau ein dadansoddiad ein hunain o ddata yn awgrymu bod rhai pryderon ynghylch effeithiolrwydd prosesau ansawdd data gyda nifer fawr o gofrestriadau lluosog yn cael eu cofnodi ar y System Gweinyddu Cleifion a nifer uwch na'r cyfartaledd o gofnodion nad ydynt yn cynnwys rhifau GIG.

**71.** Yn ogystal â gwaith ar ansawdd data, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rhoi canllawiau Caldicott ar gyfrinachedd data cleifion ar waith,

a hefyd gadernid prosesau adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes y Bwrdd Iechyd pe byddai'r system TG yn methu.

**72.** Mae fy ngwaith ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd o ran cyfrinachedd data wedi nodi bod trefniadau ar waith i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r gofynion o ran cyfrinachedd data fel y'u nodwyd yn llawlyfr Caldicott, er y gellid gwella'r rhain ymhellach er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn gwbl effeithiol ac yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd.

**73.** Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli a chynllunio ar waith i ategu gofynion llywodraethu Caldicott, er i'm gwaith nodi y gellid atgyfnerthu'r rhain. Er bod Gwarcheidwad Caldicott yn ei le, mae angen cydgysylltu materion o ran cyfrinachedd gwybodaeth yn fwy a sicrhau gwell eglurder o ran y trefniadau ar gyfer adrodd ar lywodraethu gwybodaeth. Nodwyd rhai llifau allweddol mewn perthynas â gwybodaeth cleifion, er y gellid gwella'r adnoddau i feithrin dealltwriaeth o risgiau cyfrinachedd gwybodaeth allweddol sy'n gysylltiedig â throsglwyddo gwybodaeth ymhellach a dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried sefydlu rhwydwaith o berchenogion data ar draws y sefydliad er mwyn helpu i gyflawni hyn.

**74.** Mae'r fframwaith angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir ag egwyddorion Caldicott ar waith. Mae gan y Bwrdd Iechyd amrywiaeth o bolisïau i gefnogi cydymffurfiaeth, gyda llawer o'r rhain wrthi'n cael eu diweddaru. Caiff staff hyfforddiant ar gyfrinachedd gwybodaeth yn ystod eu cyfnod sefydlu, er y gellid atgyfnerthu hyfforddiant drwy roi hyfforddiant gorfodol rheolaidd ar ddiogelu data a chyfrinachedd gwybodaeth i bob aelod o staff yn seiliedig ar asesiad o anghenion hyfforddi. Ymddengys fod trefniadau ar waith i roi sylfaen resymol i'r gwaith o reoli pwy a gaiff weld cofnodion y System Gweinyddu Cleifion a chofnodion meddygol papur, er y gellid gwneud mwy i hysbysu cleifion am y defnydd a wneir o'u gwybodaeth a hawliau sy'n ymwneud â gwybodaeth cleifion, er enghraifft, drwy ymgyrchoedd posteri.

**75.** Er i'r Bwrdd Iechyd gwblhau ei asesiad gorfodol cyntaf o gydymffurfiaeth â Caldicott ar ddechrau 2012 gyda sgôr 'foddhaol', mae'r Bwrdd Iechyd dipyn ar ei hôl hi o gymharu â byrddau iechyd eraill yng Nghymru o ran gwneud y gwelliannau angenrheidiol i drefniadau Caldicott. Cafwyd sgôr 'foddhaol' isel fel rhan o asesiad y Bwrdd Iechyd ac er bod cynllun gweithredu ar waith mae llawer o'r camau gweithredu heb eu cymryd o hyd, gan ddibynnu ar benodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol newydd ym maes Llywodraethu Gwybodaeth ym mis Tachwedd 2012. Er bod cydymffurfiaeth ag egwyddorion Caldicott yn cael ei nodi a'i monitro drwy'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth, ni chaiff y Bwrdd wybod am hynny.

**76.** Dangosodd fy ngwaith ar brosesau adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes a oedd yn gysylltiedig â systemau clinigol TG, er bod adrannau wedi nodi ffyrdd o gynnal gwasanaethau clinigol petai Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn methu, ni chaiff cynlluniau parhad busnes nac adfer ar ôl trychineb, ar gyfer systemau a reolir y tu allan i'r tîm TGCh canolog, eu dogfennu, eu profi na'u monitro'n ddigonol. Yn fwy penodol, nodais y canlynol:

- Mae angen i drefniadau llywodraethu ar gyfer cynllunio parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb gael eu hatgyfnerthu drwy wella proffil parhad busnes o fewn y Bwrdd Iechyd.

- Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau parhad busnes nac adfer ar ôl trychineb TGCh digonol sydd wedi'u dogfennu ar gyfer pob maes allweddol, er i adrannau nodi trefniadau i gynnal gwasanaethau clinigol petai methiant TGCh.
- Mae'r seilwaith TGCh yn gadarn ar y cyfan, ond mae'n bwysig bod systemau cynnal a chymorth digonol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y fath gadernid yn parhau.
- Ni chaiff trefniadau adfer ar ôl trychineb na pharhad busnes TGCh eu profi'n ddigonol. Fel rhan o'm cynllun archwilio presennol, rwy'n gwneud rhagor o waith i adolygu digonolrwydd gweithdrefnau wrth gefn yn benodol.

### Mae gwaith paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi helpu i nodi dau achos o dwyll a gwallau

**77.** Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Daeth fy adroddiad ym mis Ebrill 2012 i'r casgliad fod gweithdrefnau'r Bwrdd yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan, ond adeg fy adolygiad, gellid bod wedi gwneud mwy o gynnydd o ran ymchwilio i gredydwyr dyblyg ac enghreifftiau o baru cofnodion. Mae'r Fenter wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i nodi dau achos o dwyll a gwallau gwerth cyfanswm o £30,129 mewn gordaliadau.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

### Prin fu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd mewn meysydd i'w datblygu a nodwyd yn flaenorol mewn perthynas â rheoli ystadau a gwaith caffael

**78.** Mae fy ngwaith Asesu Strwythuredig wedi dangos mai prin fu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â meysydd i'w datblygu a nodwyd yng ngwaith blynyddoedd blaenorol. Crynhoir y cynnydd hwn yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Meysydd i'w datblygu a nodwyd mewn gwaith Asesu Strwythuredig blaenorol.

| Mater | Cynnydd y Bwrdd Iechyd |
| --- | --- |
| Rheoli'r sylfaen asedau | Erys cynnydd wrth roi'r trefniadau angenrheidiol ar waith i reoli ystad y Bwrdd Iechyd yn araf er i ni nodi pryderon yn flaenorol:<br>• er bod ffocws cynyddol ar faterion allweddol o ran ystadau, mae niferoedd staff o fewn swyddogaeth ystadau'r Bwrdd Iechyd yn dirywio er gwaethaf pwysau cynyddol yn sgil gofynion deddfwriaethol a'r Bwrdd Iechyd yw'r unig fwrdd iechyd yng Nghymru lle gwelwyd y fath ddirywiad mewn llawer o'i ddangosyddion perfformiad a nodwyd yn adroddiad rheoli perfformiad ystadau a chyfleusterau blynyddol Llywodraeth Cymru;<br>• dim ond yn ddiweddar y cynigiwyd mynd ati i reoli perfformiad ystadau'r Bwrdd Iechyd yn fewnol a hyd yn hyn nid yw'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad Strategol na'r Bwrdd wedi cael unrhyw wybodaeth am berfformiad;<br>• nid ystyrir bod ystadau yn ffactor galluogi allweddol o ran datblygu a moderneiddio gwasanaethau eto. |
| Trefniadau caffael | Mae angen gwella trefniadau caffael o hyd:<br>• nid ymddengys fod cynlluniau a roddwyd ar waith i gyflwyno dangosyddion perfformiad allweddol o ran trefniadau caffael y Bwrdd Iechyd i'r Bwrdd wedi cael eu datblygu;<br>• tynnodd adroddiad Archwilio Mewnol diweddar sylw at nifer o broblemau canfyddedig gyda phrosesau caffael cyfredol ar draws y Bwrdd Iechyd;<br>• mae galw cynyddol am well cydweithio rhwng y swyddogaeth gaffael o fewn gwasanaethau a rennir a'r is-adrannau, yn enwedig o ystyried y ffocws parhaus ar gaffael yng nghynllun arbedion y Bwrdd Iechyd. |

## Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull cadarn o gynllunio'r gweithlu, er bod rhai bylchau allweddol ac mae angen gwneud mwy er mwyn cyflawni'r newidiadau sydd eu hangen i'r gweithlu

**79.** Mae fy ngwaith Asesu Strwythuredig ar gynllunio'r gweithlu wedi nodi bod gan y Bwrdd Iechyd gynllun gweithlu ar waith sy'n seiliedig ar feddylfryd system gyfan gadarn ar draws yr is-adrannau. Cydnabu ffyrdd amgen o ymdrin â'r gweithlu ynghyd â goblygiadau megis newidiadau i hyfforddiant meddygol ac mae tystiolaeth glir bod y gwaith o ddatblygu cynllun y gweithlu yn cael ei arwain gan y clinigwyr, drwy'r

arweinwyr proffesiynol a'r prif glinigwyr o fewn yr is-adrannau. Fodd bynnag, hyd yn hyn nid yw'r cynllun yn adlewyrchu rhai newidiadau allweddol i wasanaethau a gaiff effaith ar y gweithlu, megis cynllun De Cymru ac 'Ymgyrch Wyn'. Er bod cyfeiriad at darged Haen 1 i symud staff i mewn i'r gymuned a gaiff ei wella drwy 'Ymgyrch Wyn', ni roddir unrhyw wybodaeth i'r Bwrdd am ba mor dda y cyflawnir y gwaith hwn drwy gynlluniau gweithlu cyfredol. Er i'r cynllun ymateb i amrywiaeth o risgiau corfforaethol, nid ymddengys ychwaith fod y lleihad arfaethedig i'r gweithlu wedi bod yn destun asesiad risg.

**80.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i sicrhau bod y cynlluniau'n seiliedig ar wybodaeth o ansawdd da ac mae'n ceisio gwneud y defnydd mwyaf o'r Cofnod Staff Electronig fel bod modd cyflwyno gwell data ar gynllunio'r gweithlu. Fodd bynnag, er bod y cynllun wedi cael ei gostio, nid yw'n gydnaws â'r cynllun ariannol. Gwelir hyn ar ffurf gwahaniaeth nodedig yn y graddau y gwneir arbedion yn 2012-13 drwy'r ffaith bod llai o sefydliadau yn cael eu nodi ym mhob un o'r cynlluniau.

**81.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd araf a chyson mewn perthynas â mynd i'r afael â chynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu, er bod angen cyflymu'r gwaith hwn er mwyn gweld unrhyw effaith sylweddol. Gwnaed gwelliannau o ran cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd a chynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, ond mae gwariant ar gostau amrywiadwy yn parhau i gynyddu ac mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn dal i fod uwchlaw targed Llywodraeth Cymru. Mae adroddiadau gwybodaeth a chudd-wybodaeth manwl ar y gweithlu ar gael er mwyn monitro cynhyrchiant ac effeithlonrwydd drwy Bwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a gwelir enghreifftiau o fentrau yn dechrau cael eu sefydlu er mwyn mynd ati i ailgynllunio prosesau. Mae nifer o lifau gwaith ar fin cael eu sefydlu er mwyn datblygu llawer o'r materion sy'n gysylltiedig â chynhyrchiant ac effeithlonrwydd fel rhan o raglen newydd y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

**82.** Nid yw'r trefniadau hyfforddi a datblygu angenrheidiol ar waith i gefnogi'r broses o gyflawni cynlluniau'r gweithlu. Er bod gwelliannau wedi cael eu gwneud, erys cydymffurfiaeth ag adolygiadau arfarnu a datblygu personol ac arfarniadau meddygol yn isel. Sefydlwyd grŵp addysg integredig er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau hyfforddi newydd, er mai prin yw'r dystiolaeth i awgrymu bod y cynlluniau hyfforddi a datblygu angenrheidiol ar waith ar lefel weithredol.

**83.** Mae'r adran Adnoddau Dynol i'w gweld yn amlwg ar lefel strategol, ond mae angen gwneud mwy i atgyfnerthu ei rôl o ran galluogi newid yn weithredol. Hyd yn hyn, mae llawer o'r newidiadau a wnaed i'r gweithlu wedi cael eu harwain gan y proffesiynau eu hunain. Prin fu mewnbwn y tîm Adnoddau Dynol yn hynny o beth ac mae'r is-adrannau o'r farn bod diffyg cefnogaeth o'r canol i weithredu a rheoli newidiadau i'r gweithlu.

### Tynnodd fy ngwaith meincnodi ar staffio wardiau sylw at amrywiad o gymharu â wardiau ac arbenigeddau tebyg eraill yn ogystal â meysydd a nodwyd a oedd angen sylw pellach

**84.** Rhoddodd fy adolygiad staffio wardiau lleol gymhariaeth feincnod i'r Bwrdd Iechyd o lefelau staffio a chymysgedd graddau ar draws ei wardiau acíwt a chymunedol, gan

ystyried natur gymhleth cleifion ym mhob arbenigedd. Nododd yr adolygiad meincnod y canlynol:

- Roedd lefel gyffredinol y staff cyfwerth ag amser cyflawn ar y wardiau fel y'i disgwyliwyd o ystyried cymysgedd a maint wardiau. Eto i gyd, roedd peth amrywiad rhwng arbenigeddau gyda lefel is na'r disgwyl o staff cyfwerth ag amser cyflawn ar draws arbenigeddau meddygol, a lefel uwch na'r disgwyl o staff cyfwerth ag amser cyflawn ar gyfer arbenigeddau llawfeddygol a gofal critigol. Mae'r amrywiad hwn wedi'i ddatrys bellach.
- Ar y cyfan, roedd y costau a oedd yn gysylltiedig â staffio wardiau yn uwch na llawer o safleoedd eraill, er bod hyn yn adlewyrchu'r amrywiad o ran lefel y staff cyfwerth ag amser cyflawn ar draws yr arbenigeddau a chymysgedd graddau staff. Cafwyd bod cymysgedd graddau staff wardiau o fewn y Bwrdd Iechyd yn gymaradwy gyfoethocach gyda mwy o staff Band 6 mewn swydd o gymharu â safleoedd eraill.
- Roedd y gost fesul aelod o staff cyfwerth ag amser cyflawn hefyd ychydig yn uwch a oedd yn adlewyrchu'r cymysgedd graddau gymaradwy gyfoethocach. Roedd trosiant is hefyd yn effeithio ar gost staff cyfwerth ag amser cyflawn, gan fod staff yn fwy tebygol o gyrraedd graddfeydd cyflog cynyddrannol uwch.
- Roedd y defnydd o staff dros dro yn gymharol isel dros y cyfnod a feincnodwyd.
- Roedd lefel gymharol isel o staff glanhau ar gael i gefnogi'r wardiau.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei drefniadau ymhellach o ran ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn effeithiol a fydd yn sail gadarn i gyflawni'r newidiadau sylfaenol sydd eu hangen i wasanaethau

**85.** Mae'r gwaith a wnaed gennyf eleni ar ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid wedi nodi bod systemau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gwneud hyn wedi datblygu ymhellach drwy'r fframwaith cyfathrebu ac ymgysylltu diwygiedig y bydd y Bwrdd yn ei lunio'n derfynol ym mis Tachwedd. Mae'r fframwaith yn cynnwys amrywiaeth o brosesau systematig ar gyfer gwrando ar y cyhoedd a dwyn ynghyd safbwyntiau cleifion sydd wedi'u hymgorffori'n gadarn, a bu'r ymarfer 'darlunio'r dyfodol' diweddar yn gyfle gwerthfawr i wrando ar staff. Er bod rolau a chyfrifoldebau clir o fewn y Bwrdd Iechyd, efallai nad oes digon o adnoddau ar gael i ymgysylltu'n barhaus.

**86.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi cynllun helaeth ar waith i ymgysylltu â'r cyhoedd, staff a rhanddeiliaid ar gynllun rhanbarthol De Cymru. Dysgwyd gwersi o ymgynghoriadau blaenorol sydd wedi llywio'r broses ymgysylltu. Mae clinigwyr yn ymwneud â'r cynllun ac yn chwarae rhan flaenllaw wrth gyflwyno a chefnogi'r achos dros newid. Ynghyd â hyn, caiff cydberthynas effeithiol ei datblygu â'r Cyngor Iechyd Cymuned lleol er mwyn cefnogi'r broses ymgysylltu, sy'n cynnwys amrywiaeth cynhwysfawr o fformatau sy'n fodd i gasglu gwybodaeth a rhannu safbwyntiau.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â mynd i'r afael ag argymhellion ein gwaith blaenorol ar wasanaethau mamolaeth, er bod angen gwneud rhagor o waith mewn nifer o feysydd ac mae angen cynnal momentwm

**87.** Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi gwneud gwaith archwilio dilynol i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r pryderon a'r argymhellion a gododd o waith archwilio blaenorol ar wasanaethau mamolaeth. Crynhoir canfyddiadau'r gwaith dilynol yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwiliadau

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
|---|---|
| Gwasanaethau mamolaeth | Mae tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da o ran gwella ei wasanaethau mamolaeth, er bod angen gwneud rhagor o waith mewn nifer o feysydd allweddol a chynnal momentwm. Nodir y rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn isod:<br>• mae gwasanaethau mamolaeth yn flaenoriaeth glir a chânt gefnogaeth weithredol lawn, er bod trefniadau rheoli yn dal i ymsefydlu;<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd sylfaen dda ar waith i reoli perfformiad ac ymgysylltu â'i ddefnyddwyr, ond mae angen gwneud mwy er mwyn atgyfnerthu ei systemau gwybodaeth;<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth strategol glir ar gyfer gwasanaethau mamolaeth ac mae'n canolbwyntio ar atgyfnerthu ei wasanaethau cymunedol;<br>• mae'r trefniadau i ddarparu gwasanaethau mamolaeth diogel ac effeithiol wedi cael eu gwella, er bod angen ymdrin â rhai agweddau ar lefelau staffio, capasiti ac ymgysylltu â'r sefydliad ehangach;<br>• bu sawl gwelliant i'r llwybr mamolaeth, er bod heriau o hyd o ran addysg gynenedigol a hyrwyddo normalrwydd wrth roi genedigaeth. |

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mai 2012 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2012 |
| Barn ar ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | Gorffennaf 2012 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno | Medi 2012 |
| Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol - Adroddiad Manwl | Medi 2012 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol - Elusen | Hydref 2012 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Gwasanaethau Mamolaeth: Adolygiad Dilynol (2010) | Ionawr 2012 |
| Adolygiad Cymharol o Staffio Wardiau (2010) – Pecyn Data | Mawrth 2012 |
| Trefniadau Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes o ran Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) (2011) | Ebrill 2012 |
| Ansawdd Data (2011) | Hydref 2012 |
| Asesiad Strwythuredig (2012) - Pecyn Cyflwyno | Tachwedd 2012 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2012 | Chwefror 2012 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | Ebrill 2012 |

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Theatrau llawdriniaethau a llawdriniaethau achosion dydd (2010) | Tachwedd 2012 |
| Adolygiad o Drefniadau Data wrth Gefn ac Adfer Data (2012) | Tachwedd 2012 |
| Adolygiad Cyfunol o Gyflyrau Cronig, Gofal Heb ei Drefnu ac Ymgysylltu Clinigol (2011) | Rhagfyr 2012 |
| Contractau Meddygon Ymgynghorol - Adolygiad Dilynol (2011) | Rhagfyr 2012 |
| Gwasanaethau Arlwyo - Adolygiad Dilynol (2012) | Rhagfyr 2012 |
| Adolygiad o Gyfarpar Meddygol (2012) | Ionawr 2013 |
| Presgripsiynau Meddygon Teulu (2012) | Chwefror 2013 |
| Orthopedeg (2012) | Chwefror 2013 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2012 ffi archwilio arfaethedig o £415,070 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr Amlinelliad.

Yn ogystal â'r ffi uchod, roedd y ffi am y gwaith archwilio a wnaed o ran y gwasanaethau a rennir a ddarparwyd i'r Bwrdd Iechyd gan Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru yn £9,760 (heb gynnwys TAW).

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk